# Y Teulu

**Uned o Waith yn canolbwyntio ar Feysydd Dysgu a Phrofiad. Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn:**

**Mathemateg a Rhifedd**

Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau. Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

**Dyniaethau:**

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

**Her!**

**Disgrifia deulu, gall fod yn deulu go iawn neu yn un dychmygol:**

- Beth sy'n gwneud teulu?
- Pwy sy'n rhan o'r teulu?
- Cyllideb a gwariant y teulu.
- Gwaith aelodau o'r teulu.
- Cyfrifoldebau o fewn y teulu.
- Rheolau a thegwch.

## CYFLWYNIAD

Uned yn edrych ar deuluoedd amrywiol.  Gellir dechrau trwy drafod teulu'r Ysgwrn yng nghyfnod Hedd Wyn.

- Pwy oedd yn byw yno?
- Trafod nifer y plant o fewn y teulu, eu hoedran, a'r plant na wnaeth oroesi.
- Trafod defnyddioldeb y cyfrifiad i ddod o hyd i wybodaeth. (Mae'n bosibl edrych ar gyfrifiad o bob ardal yn eich Archifdy lleol)

Gellir hefyd trafod y ddau frawd, Ellis a Gerald Williams, fu'n cadw drws yr Ysgwrn ar agor ers marw eu Nain (Mam Hedd Wyn). Roedd y ddau wedi gwneud addewid i'w Nain y bydden nhw'n cadw'r aelwyd yn gynnes, er cof am eu hewythr enwog.

Gellir trafod to hŷn teuluoedd y dysgwyr. Oes gan y dysgwyr berthynas arbennig gyda nhw?

Creu coeden deulu. (*Mae angen pwysleisio a dathlu amrywiadau o fewn teuluoedd.)*

**Noder:** Mae enwau teulu Hedd Wyn a'r cofnod o gyfrifiadau ar gael ar wefan Yr Ysgwrn.

## GWEITHGAREDDAU POSIBL:

### Mathemateg a rhif

- Economeg y cartref - pam fod yn rhaid cael arian i fyw?
- Cyllideb teulu - beth yw cyllideb? Ydy'n bwysig gwybod faint yw cost pethau?
- Cymharu cyflogaeth yn ystod y 1910 a'r cyfnod modern. Ar beth fyddai pobl yn gwario yn 1910? Oedd hi'n haws cynilo'r adeg honno?
- Creu teulu dychmygol - trafod,
  - cyflogau
  - costau byw
  - sut i gadw o fewn cyllideb
  - ydy'n bosib byw o fewn cyllidebau bob amser?
  - sut fath o bethau fyddai'n gallu effeithio ar gyllideb teulu?

### Y Dyniaethau

- Edrych ar astudiaeth o amser hamdden teuluoedd dros y blynyddoedd. Beth fyddai Teulu'r Ysgwrn yn ei wneud yn eu hamser hamdden? Faint o amser hamdden fyddai ar gael?
- Trafod y gwahaniaeth rhwng ddoe a heddiw.
- Trafod dyfodiad y Gwasanaeth Iechyd, a thrafod y newid ddaeth i iechyd pobl, yn arbennig babanod yn sg^l y GIC.
- Dylid rhoi cyfle i'r dysgwr ymchwilio i adnoddau o fewn ei ardal leol. Pa fath o cyfleoedd fyddai yno? E.e. ffeiriau, siopau, sinemâu, neuaddau dawns/cyngherddau, glan môr, eisteddfodau.
- Teulu'r Byd. Sut rydym ni'n ffitio i mewn i ddarlun o'r byd fel un teulu mawr?
- Beth yw dylanwad ein teulu ni ar fyd natur, cynefinoedd, cynaladwyaeth? Ydyn ni'n gwneud ein rhan e.e. o ran yr amgylchfyd, adnoddau naturiol y Ddaear.

## MEYSYDD ERAILL

### Y Celfyddydau Mynegiannol

- Creu darluniau gan ddefnyddio ffotograffau o archif Yr Ysgwrn.
- Trafod y ffotograff o'r teulu - beth yw'r stori mae'r ffotograff yn ei ddweud?
- Beth yw'r stori y tu ôl i ffotograffau eraill?
- Edrych ar waith arlunwyr, yn arbennig portreadau megis gwaith Luned Rhys Pari.
- Cerddoriaeth - beth yw hoff gerddoriaeth eich teulu chi?

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Edrych ar adeiladwaith - ydy adeiladau a chartrefi yn addas a diogel ar gyfer pob aelod o'r gymuned.
- Cynllunio dyfais a fyddai'n hwyluso bywyd i aelod o'r teulu.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Creu casgliad o storiâu a hanesion llafar sy'n ymwneud â theulu'r dysgwr.
- Creu gêm fwrdd am deuluoedd ar ffurf *Who's Who,* gan gynnwys disgrifiadau.
- Ysgrifennu portreadau neu gerddi am aelodau'r teulu.

### Iechyd a Lles

- Trafod gwerthoedd o fewn teuluoedd. Beth sy'n bwysig yn eich teulu chi?
- Trafod cynhwysedd ac amrywiaeth o fewn teuluoedd - mae pob teulu'n gyfartal.
- Trafod rhinweddau a'r pethau rydym yn eu cyfrif yn arbennig am ein teuluoedd ni.
- Cynllunio gweithgaredd hamdden fyddai'n addas ar gyfer eu teuluoedd gydag amodau megis:
  - treulio amser gyda'i gilydd
  - treulio amser yn yr awyr agored yn cadw'n heini
  - dim cost ariannol ac eithrio creu picnic iachus.

### Geiriau'r Bardd

Daw Geiriau'r Bardd o gerdd Hedd Wyn - *Plant Trawsfynydd 1915*. Roedd nifer o gyfoedion Hedd Wyn eisioes yn brwydro yn y Rhyfel Mawr ac ysgrifennodd y bardd gyfres o gerddi tebyg i gofio am y bechgyn ar achlysur y Nadolig.